**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 12 MAI 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, L.Jones a/ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Griffiths, H.Jenkins, K.Jones, A.Jarrett, C.Furlow-Harris, D.Griffiths, P.Jackson a/ac J.Woodman-Ralph.

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cyng E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawyd y Cyng. M Harvey i'w gyfarfod cyntaf o'r Cabinet fel Aelod Cabinet dros Strydlun a Pheirianneg.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

4. **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Bod cofnodion 8 ac 16 Mawrth 2021 yn cael eu cymeradwyo.

## 5. MODEL ARIANNU CLUDIANT CYMUNEDOL ARFAETHEDIG AR GYFER Y DYFODOL

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Aildrefnu cyllid y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (GCGB) i adlewyrchu'r newidiadau gweithredol i Gludiant Cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

2. Ar ôl asesu ceisiadau am gyllid, rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, ddyrannu'r GCGB i ymgeiswyr llwyddiannus.

3. Os bydd arian ychwanegol ar gael mewn blwyddyn ariannol, gwahoddir sefydliadau cludiant cymunedol i wneud cais am arian o'r fath.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

O ganlyniad i esblygiad Cludiant Cymunedol, mae cymunedau'n sefydlu mwy o glybiau ceir i fodloni gofynion cludiant penodol eu hardal leol. Gallai hyn fod drwy weithredu gwasanaeth bysus neu fel arall drwy fynd â phreswylwyr at y meddyg, i apwyntiadau ysbyty neu mewn rhai achosion roi opsiwn i aelodau o'r cynllun logi cerbydau ar sail hunan-yrru, gan sefydlu opsiwn trafnidiaeth leol mwy cynaliadwy a gwasanaethau Llogi Cyfarpar Symudedd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 6. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2021/2023

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir cymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Corfforaethol diweddaredig ar gyfer y cyfnod 2021-2023.

2. Bydd y Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol yn cael ei awdurdodi i ychwanegu'r data perfformiad ychwanegol at yr adroddiad pan fydd ar gael.

3. Bydd y Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol yn cael awdurdod dirprwyedig, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Prif Weithredwr, i wneud unrhyw newidiadau pellach sy'n angenrheidiol cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol ac nad ydynt yn newid cynnwys y cynllun yn sylweddol.

4. Bod y Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2021-2023 yn cael ei gymeradwyo i'r Cyngor ar 26 Mai 2021 i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau bod y diwygiadau a wnaed i'r Cynllun Corfforaethol yn cael eu cymeradwyo, gan gyflawni dyletswyddau cyfreithiol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y maent yn berthnasol i weithgareddau cynllunio corfforaethol y cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Penderfyniadau:**

Nododd yr Aelodau nad oedd yn ofynnol cael Asesiad Effaith Integredig ar yr eitem hon.

1. Nodi'r cynnydd a wnaed ar y gwaith i wella Llywodraethu Corfforaethol a gyflawnwyd yn ystod 2020-2021.

2. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-2021 a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Cymeradwyo'r gwaith Gwella Llywodraethu Corfforaethol sydd i'w wneud yn ystod 2021-2022.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

I sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni gofynion Rheoliad 5(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol y cyngor a pharatoi a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU**

**Penderfyniadau:**

Roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r pryderon a fynegwyd gan y pwyllgor craffu blaenorol a gofynnwyd i bryderon y Cabinet gael eu hamlygu i Lywodraeth Cymru hefyd, fel y nodir isod.

1. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, gytuno ar wneud cais am arian grant i Lywodraeth Cymru i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ac i dderbyn unrhyw gynnig grant a allai gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru (boed hynny i'r cyngor hwn neu i awdurdod sy'n rhan o Gydbwyllgor Corfforaethol (CBC) Abertawe Cymru).

2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr gynnal trafodaethau ag awdurdodau a fydd yn cynnwys CBC De-orllewin Cymru, i ddatblygu cynigion ar gyfer sefydlu CBC De-orllewin Cymru.

3. Cyflwyno adroddiad i'r aelodau i'w gymeradwyo, unwaith y bydd trafodaethau wedi'u cwblhau, er mwyn i aelodau gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer CBC De-orllewin Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

4. Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon am Gydbwyllgorau Corfforaethol fel y trafodwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Cabinet ar 12 Mai 2021.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a sicrhau anghenion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'u hadlewyrchu yn natblygiad y Cydbwyllgorau Corfforaethol hyn.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CYMORTH TRETHI DEWISOL AR GYFER ELUSENNAU A SEFYDLIADAU NID ER ELW**

**Penderfyniad:**

Bod y cynllun cymorth ardrethi dewisol presennol i elusennau a sefydliadau dielw'n cael ei ymestyn i 31 Mawrth 2024 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ddarparu cymorth ardrethi dewisol i drethdalwyr hyd at 31 Mawrth 2024.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**